Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth addysg bellach

**Grŵp NPTC**
**Heol Dŵr y Felin**
**Castell-nedd**
**SA10 7RF**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Grŵp NPTC

Sefydlwyd Grŵp Colegau NPTC yn 2013 pan unodd Coleg Castell-nedd Port Talbot â Choleg Powys. Mae'n darparu ystod amrywiol o gyrsiau addysg bellach ar wyth safle sydd wedi eu gwasgaru dros ardal eang o Bowys, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae pedwar prif safle'r coleg yn Afan, Aberhonddu, Castell-nedd a'r Drenewydd. Yn ardal Castell-nedd Port Talbot, ceir darpariaeth drydyddol, ac mae bron pob un o'r ysgolion uwchradd yn ysgolion 11-16.

Yn ogystal â'i ddarpariaeth addysg bellach, mae Grŵp Colegau NPTC yn rhan o gonsortiwm sy'n cyflwyno darpariaeth dysgu yn y gwaith a phartneriaethau mewn dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg uwch, yn ogystal â bod yn sefydliad addysg uwch rheoleiddiedig, drwy ei hawl ei hun. Darpariaeth addysg bellach y grŵp yn unig a gwmpesir yn yr arolygiad hwn, a chyfeirir at hyn yng ngweddill yr adroddiad fel 'y coleg'.

Mae gan y coleg tua 7,250 o ddysgwyr addysg bellach, y mae tua 3,750 ohonynt yn astudio cyrsiau amser llawn. Mae tua 80% o'r dysgwyr sy'n dilyn y prif gymwysterau yn astudio yn y coleg yn ddysgwyr galwedigaethol, a 20% ohonynt yn ddysgwyr Safon Uwch. Mae tua 5% o ddysgwyr wedi nodi eu bod yn bobl dduon, Asiaidd neu ethnig leiafrifol. Mae tua 6% o ddysgwyr yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu'n dod o ysgolion Cymraeg. Mae 16% o ddysgwyr ymrestredig wedi datgan bod ganddynt anabledd.

Mae'r coleg yn gwasanaethu ardal amrywiol, sy'n amrywio o rai o'r ardaloedd mwyaf gwasgaredig yng Nghymru o ran eu poblogaeth, ym Mhowys; i ardaloedd mwy trefol Castell-nedd a Phort Talbot. Mae 23% o ddysgwyr yn byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, fel y diffinnir gan gwintel cyntaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae 16% o ddysgwyr yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

Ar gyfer addysg bellach, mae gan y coleg drosiant blynyddol o ryw £55 miliwn, ac mae'n cyflogi 845 o staff.

## Crynodeb

Mae gan y coleg synnwyr brwd o gyfrifoldeb tuag at y cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu. Mae'n cynnig ystod eang o ddarpariaeth, sy'n diwallu anghenion ei ddysgwyr ar draws ardal ddaearyddol fawr a heriol.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn cynhyrchu safon gref o waith yn eu gwersi ac mewn sesiynau ymarferol. Maent yn adeiladu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac yn datblygu eu medrau galwedigaethol, academaidd ac ymarferol ar gyfradd briodol. Mewn rhaglenni galwedigaethol, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu ac yn cymhwyso cymwyseddau ymarferol a galwedigaethol cadarn. Mae llawer o ddysgwyr Safon Uwch yn datblygu strategaethau dysgu ac adolygu buddiol. Mewn cyrsiau lefel mynediad, mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd defnyddiol o ran datblygu eu medrau galwedigaethol ac annibynnol sylfaenol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn gwybod ble i gael cymorth, os bydd angen, ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod y coleg yn gwrando arnynt yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae tîm cymorth dysgu a thîm lles y coleg yn darparu ystod fuddiol o gymorth i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.

Mae athrawon yn meddu ar gymwysterau a phrofiad da, a phrofiad defnyddiol ym maes diwydiant, masnach a busnes, y maent yn ei gymhwyso'n dda i'w rolau. Mae llawer ohonynt yn datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda dysgwyr. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cynllunio gwersi strwythuredig ac yn annog dysgwyr i ddatblygu diddordebau pwnc ehangach.

Mae tîm arweinyddiaeth y coleg yn sefydledig a chydlynol, ac mae cyfeiriad clir ac uchelgeisiol i waith y coleg. Mae uwch arweinwyr yn gwerthuso perfformiad y coleg yn briodol, er bod prosesau gwerthuso yn arwain at ddarlun rhy gadarnhaol o ychydig o agweddau pwysig ar berfformiad y coleg.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr, yn enwedig mewn cymwysterau galwedigaethol graddedig

A2 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu, yr asesu a'r adborth i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella, a'u bod yn cael eu hymestyn a'u herio i gyflawni eu potensial

A3 Gwella presenoldeb dysgwyr

A4 Gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau Saesneg a mathemateg TGAU

A5 Cryfhau'r defnydd a wneir o brosesau sicrhau ansawdd, a'u trylwyredd, i lywio cynllunio ar gyfer gwelliant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae dysgwyr yn cynhyrchu gwaith o safon gref yn eu gwersi a'u sesiynau ymarferol. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn. Maent yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ac yn datblygu eu medrau galwedigaethol, academaidd ac ymarferol ar gyfradd briodol.

Ar raglenni galwedigaethol, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu ac yn cymhwyso cymwyseddau ymarferol a galwedigaethol defnyddiol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn datblygu strategaethau dysgu defnyddiol sy'n eu helpu i drefnu eu meddwl, galw dysgu blaenorol i gof a chysylltu theori ag arfer. Er enghraifft, mae dysgwyr peirianneg lefel 3 sy'n gweithio tuag at uned hydroleg yn dehongli diagramau cymhleth, ac yn defnyddio gwybodaeth i adeiladu cylchedau hydroleg i safon uchel. Maent yn trefnu eu gwaith yn dda ac yn creu nodiadau adolygu a chyfeirio defnyddiol. Mae dysgwyr gosod brics yn datblygu medrau dwylo ac offer ymarferol yn gyflym, gan ychwanegu at eu dysgu yn y coleg â phrofiad defnyddiol ar y safle. Mae ychydig ohonynt yn mynd i'r afael â thasgau datblygedig ar gyfer eu lefel, fel creu pyrth bwaog a cholofnau troellog. Mewn ychydig o feysydd galwedigaethol, mae dysgwyr yn gwneud llai o gynnydd yn datblygu eu medrau a'u cymwyseddau ymarferol, oherwydd yn aml, mae gormod o ddysgwyr yn oddefgar yn ystod gwersi, nid ydynt yn glir ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella, na'r raddfa amser ar gyfer hynny.

Mae llawer o ddysgwyr Safon Uwch yn gwneud cynnydd cadarn mewn gwersi. Mewn llawer o wersi, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn canolbwyntio'n dda ac yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu strategaethau dysgu ac adolygu buddiol, gan gynnwys amlygu, ailddrafftio a mapio cysyniadau. Mae ychydig o ddysgwyr yn dangos medrau academaidd hynod gryf, ac yn cyflawni deilliannau cryf. Caiff hyn ei helpu gan eu cyfranogiad yn rhaglen y coleg ar gyfer dysgwyr Safon Uwch mwy abl.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Safon Uwch yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o ansawdd uchel. Mae llawer ohonynt yn ennill y wybodaeth sylfaenol ac yn cymhwyso'r medrau yn gysylltiedig â'u disgyblaethau pwnc yn briodol. Er enghraifft, mewn economeg, mae dysgwyr yn gwneud cyfrifiadau yn gywir ac yn hyderus. Mewn astudiaethau crefyddol, mae dysgwyr yn rhoi enghreifftiau amrywiol a meddylgar wrth ateb cwestiwn a ofynnwyd am ddrygioni moesol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Safon Uwch yn gwybod eu graddau targed ac yn cael adborth rheolaidd gan eu hathrawon ar eu cynnydd tuag at eu bodloni.

Mewn ychydig o bynciau Safon Uwch, mae dysgwyr yn oddefgar ac ni chânt eu herio na'u hysgogi ddigon gan eu hathrawon. Nid yw ychydig iawn o ddysgwyr yn trefnu eu gwaith yn ddigon da, ac mae hyn yn rhwystro eu hadolygu a'u dysgu yn ddiweddarach.

Mewn cyrsiau lefel mynediad, mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr gynlluniau dysgu unigol defnyddiol i'w helpu â'u medrau a'u datblygiad personol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymgymryd yn dda â'u cyrsiau ac yn gwneud cynnydd cadarn mewn

gweithgareddau creadigol, ac mewn datblygu eu medrau galwedigaethol ac annibynnol sylfaenol, fel coginio.

Mae llawer o ddysgwyr yn gosod targedau perthnasol i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac mae mwyafrif ohonynt yn datblygu'r medrau hyn yn rheolaidd gan ddefnyddio deunyddiau astudio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST), er enghraifft yn ystod sesiynau tiwtorial.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddysgwyr yn siarad yn glir ac yn defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc yn rhwydd. Maent yn gwrando'n dda ar eu cyfoedion ac ar athrawon mewn trafodaethau dosbarth. Mae llawer o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig cadarn ac yn defnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg, sy'n briodol i'w lefel. Mae llawer o ddysgwyr sy'n dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn dangos medrau defnyddiol ar lafar yn ystod trafodaethau, ac yn ailddrafftio a mireinio gwaith ysgrifenedig estynedig yn effeithiol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n ailedrych ar eu gwaith i gywiro gwallau. Mewn lleiafrif o gyrsiau galwedigaethol, mae medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn cyfyngu ar eu gallu i wneud cynnydd i'w llawn botensial. Mewn ychydig o feysydd galwedigaethol a phynciau Safon Uwch yn unig y caiff dysgwyr gyfleoedd rheolaidd i ymarfer a gwella eu medrau rhifedd.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o offer digidol yn hyderus. Mewn lleiafrif o sesiynau, mae dysgwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o adnoddau ar-lein i gefnogi dysgu.

Mae tua 2,000 o ddysgwyr yn dod i'r coleg heb iddynt ennill gradd A*-C i safon TGAU mewn Saesneg, Cymraeg neu fathemateg. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn cofrestru mewn dosbarthiadau i ailsefyll cyrsiau TGAU, er mwyn gwella eu cyrhaeddiad blaenorol. Mewn llawer o'r sesiynau hyn, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cyfyngedig, ac ychydig ohonynt yn unig sy'n datblygu medrau i'r lefel lle maent yn cyflawni gradd A*-C yn eu harholiadau i ailsefyll cyrsiau TGAU, neu wella eu gradd o'u hymgais flaenorol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn ennill eu deilliant cymhwyster.

Mae 6% o ddysgwyr amser llawn y coleg yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu'u bod wedi mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg. Ychydig iawn o'r dysgwyr hyn yn unig sy'n ymarfer neu'n gwella eu medrau Cymraeg fel rhan o'u cwrs neu mewn gweithgareddau eraill o gwmpas y coleg. Mae dysgwyr ar ychydig iawn o gyrsiau, fel gofal plant, yn datblygu medrau Cymraeg defnyddiol sy'n eu helpu â rolau gwaith. Fodd bynnag, at ei gilydd, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n datblygu medrau Cymraeg.

Mae'r data mesurau cyson ôl-16 ar gyfer 2018-2019 yn dangos, at ei gilydd, bod dysgwyr ar raglenni galwedigaethol ac addysg gyffredinol (fel cyrsiau Safon Uwch a diplomâu BTEC) yn cwblhau cymwysterau dros ddwy flynedd ar gyfradd is na'r cyfartaleddau cenedlaethol, gyda chyfran is o raddau uwch, ar y cyfan. Mae dysgwyr yn parhau o flwyddyn 1 a blwyddyn 2 eu hastudiaethau ar gyfradd is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu. Maent yn ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgareddau dysgu, ac yn cynnal eu lefelau canolbwyntio yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn gwybod ble i droi am gymorth, os bydd angen. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod y coleg yn gwrando ar eu hanghenion a'u pryderon. Mae ychydig o ddysgwyr, yn enwedig y rhai na fynychodd gyfnod ymsefydlu, yn ansicr ynglŷn â sut i gael cymorth ar faterion fel iechyd meddwl, ac yn teimlo nad ydynt yn cael digon o gyfle i elwa ar gymorth un i un gan eu tiwtor personol. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn mynychu gwersi'n ddigon rheolaidd, ac nid yw ychydig iawn ohonynt yn cyrraedd yn brydlon.

Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr fod eu profiadau dysgu yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl â gwahanol gefndiroedd ac anghenion dysgu, a bod y coleg yn darparu amgylchedd cynhwysol. Er enghraifft, mae grŵp dysgwyr LGBTQ yn cyfarfod bob wythnos, gan alluogi aelodau i fwynhau'r cyfle i gymdeithasu mewn amgylchedd diogel ac sy'n gefnogol i'r ddwy ochr.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn hyderus, yn hunangymhellol ac yn awyddus i ddysgu. Mae llawer ohonynt yn teimlo bod eu rhaglen ddysgu yn eu helpu i wella eu medrau bywyd, eu rhagolygon cyflogaeth a'u dealltwriaeth o gadw'n iach a diogel, gan gynnwys pan fyddant ar-lein. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod y coleg yn eu paratoi'n dda ar gyfer dilyniant i ddysgu ar lefel uwch ac ar gyfer cyflogaeth.

Mae gan lawer o ddysgwyr ddyheadau realistig ac maent yn hyderus wrth drafod eu cynlluniau dilyniant. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi gwerth chweil i wella eu hiechyd a'u lles cyffredinol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen wedi'i chynllunio'n dda i gyfoethogi sesiynau tiwtorial myfyrwyr. Trwy'r rhaglen hon, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella eu hymwybyddiaeth o heriau allweddol sy'n effeithio ar unigolion a chymdeithas, gan gynnwys cynhesu byd-eang, radicaleiddio a thestunau presennol eraill iechyd a lles.

Mae lleiafrif o ddysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn cyfrannu'n werthfawr at weithgareddau â ffocws cymunedol fel codi arian ar gyfer elusennau iechyd meddwl. Mae dysgwyr gwaith coed a saernïaeth lefel 1 yn helpu ysgolion cynradd lleol trwy adeiladu cegin allanol ar gyfer un ysgol a chreu 'tŷ hobit' ar gyfer un arall. Mae ychydig o ddysgwyr Safon Uwch yn darparu gwersi mathemateg i blant ysgolion lleol. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu dysgwyr i ennill medrau cyflogadwyedd defnyddiol, yn ogystal â meithrin eu datblygiad personol.

Mae dros 200 o ddysgwyr ar draws holl safleoedd y coleg wedi cael eu hethol neu'u nodi yn gynrychiolwyr dysgwyr. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn cymryd rhan mewn hyfforddiant hawliau plant i'w helpu yn eu rolau. Mae cynrychiolwyr dysgwyr yn mynychu cynhadledd flynyddol sy'n dathlu bywyd myfyrwyr. Hefyd, maent yn mynychu digwyddiadau'r Senedd ar y safle bob tymor. Mae'r digwyddiadau hyn yn galluogi cynrychiolwyr dysgwyr i holi uwch dîm rheoli'r coleg am faterion sy'n effeithio ar ddysgwyr a'u profiadau, a chael dylanwad gwerthfawr ar benderfyniadau ar draws y coleg.

Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn elwa ar fwrsarïau academaidd, galwedigaethol neu chwaraeon elitaidd, yn ennill ysgoloriaethau chwaraeon neu ddiwylliannol neu'n dal swyddi fel llysgenhadon myfyrwyr. Mae'r dysgwyr hyn yn cyfrannu at weithgareddau'r coleg yn dda, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau agored, nosweithiau cyfweld a gweithgareddau hyrwyddo'r coleg.

Mae ychydig o ddysgwyr yn datblygu medrau galwedigaethol ar lefel uwch ac yn gwella eu hyder personol trwy gymryd rhan mewn cystadlaethau medrau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr galwedigaethol yn datblygu ymddygiadau sy'n cefnogi eu dyheadau gyrfa. Er enghraifft, mae gan ddysgwyr arlwyo ddyheadau uchel, ac yn deall bod cymryd rhan mewn cystadlaethau medrau yn darparu platfform defnyddiol ar gyfer gwella medrau a rhagolygon cyflogadwyedd. Mae ychydig o ddysgwyr trin gwallt a harddwch lefel 3 yn elwa ar raglen profiad gwaith ryngwladol sefydledig. Mae'r dysgwyr hyn yn datblygu mwy o annibyniaeth, yn profi gwahanol ddiwylliannau, yn datblygu eu medrau iaith, ac yn archwilio cyfleoedd cyflogaeth.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Ar draws y coleg, mae athrawon yn meddu ar gymwysterau a phrofiad da. Defnyddiant eu profiad ym maes diwydiant, masnach a busnes yn effeithiol i gysylltu eu haddysgu ag arferion cyfredol yn y gweithle. Mae rheolwyr yn recriwtio ac yn defnyddio staff addas i gyflwyno modiwlau ac unedau cyrsiau arbenigol yn dda.

Mae llawer o athrawon yn datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda dysgwyr sy'n eu cymell i ddatblygu medrau a gwybodaeth newydd, a gwneud cynnydd tuag at ennill eu cymwysterau.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio gweithgareddau wedi'u strwythuro'n ddefnyddiol sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol, ac yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd cadarn. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr, ac maent yn eu herio i ddatblygu gwybodaeth, cynhyrchu gwaith ymarferol a chwblhau tasgau theori i safon uchel. Mewn dosbarthiadau Safon Uwch, mae mwyafrif yr athrawon yn cyflwyno sesiynau bywiog sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn dda. Maent yn helpu strwythuro dealltwriaeth dysgwyr o gysyniadau, ac yn eu hannog i ddatblygu diddordebau pynciol ehangach. Mae llawer o athrawon yn defnyddio canmoliaeth ar lafar yn dda i gymell, a magu hyder y dysgwyr.

Mewn mwyafrif o sesiynau, mae athrawon yn defnyddio holi yn briodol i asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a chynnydd dysgwyr mewn sesiynau addysgu. Mewn ychydig o enghreifftiau, mae athrawon yn defnyddio holi yn arbennig o dda i herio dysgwyr i roi ymatebion ar lefel uwch a datrys problemau. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn defnyddio trafod a holi yn effeithiol fel ffordd o wirio gwybodaeth dysgwyr neu i ddyfnhau eu dealltwriaeth. Mewn lleiafrif o sesiynau, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall dysgwyr ei gyflawni yn rhy isel ac mae cyflymdra'r dysgu yn rhy araf. Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon yn cynllunio sesiynau yn ddigon da nac yn ymestyn a herio dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial.

Mewn mwyafrif o sesiynau, mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddysgwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig, sy'n eu helpu i wella eu gwaith. Yn yr achosion hyn, maent yn darparu cyngor ac arweiniad clir, ac yn monitro ymatebion dysgwyr yn ofalus i sicrhau eu bod yn gwneud gwelliannau. Fodd bynnag, mae lleiafrif o athrawon yn marcio gwaith dysgwyr yn arwynebol ac nid ydynt yn darparu arweiniad clir ar sut gall dysgwyr wella eu perfformiad.

Mae'r coleg yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddysgwyr mwy abl a thalentog ymestyn eu profiadau dysgu y tu hwnt i'w hardaloedd lleol, gwella eu hunan-barch ac anelu at gyflawni ar lefelau uwch. Mae'r coleg yn annog dysgwyr ar draws ystod eang o feysydd dysgu galwedigaethol i ddangos eu medrau ymarferol mewn cystadlaethau medrau cenedlaethol.

Mae prosesau cynllunio'r coleg yn drylwyr a manwl. Maent yn ystyried blaenoriaethau'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r galw gan gyflogwyr a dysgwyr. Mae'r cynllun yn nodi llwybrau dilyniant clir i'r lefel nesaf, addysg uwch a chyflogaeth a hyfforddiant. O ganlyniad, mae'r coleg yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau galwedigaethol a Safon Uwch ar draws ei safleoedd, sydd wedi eu gwasgaru dros ardal ddaearyddol fawr a heriol.

Mae'r coleg wedi cydweithio'n dda â'i awdurdodau lleol a'i ysgolion i bontio bylchau mewn darpariaeth ac ymestyn y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr. Mae'r coleg wedi datblygu trefniadau cydweithio hynod fuddiol yn rhanbarth Castell-nedd Port Talbot. Mae'r ddarpariaeth 14-19 hon yn galluogi disgyblion o ysgolion i ddilyn ac astudio ystod werth chweil o bynciau, gan gynnwys darpariaeth werthfawr ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu.

Mae gan y coleg raglen addas ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi ennill gradd C neu'n uwch mewn mathemateg neu Saesneg TGAU i ddatblygu ac ailsefyll eu harholiadau TGAU. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon ar raglenni ailsefyll cyrsiau TGAU yn cynllunio eu haddysgu yn ddigon da i gynnal ymgysylltiad lleiafrif o ddysgwyr trwy gydol y wers.

Mewn ychydig o feysydd, fel trin gwallt, peirianneg ac adeiladu, mae athrawon yn integreiddio datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol yn eu gwersi yn effeithiol. At ei gilydd, mae'r arfer o integreiddio medrau mewn cyrsiau ac ansawdd medrau addysgu yn rhy amrywiol ar draws y ddarpariaeth.

Mae'r coleg wedi datblygu strategaeth ddefnyddiol ar gyfer datblygu ei ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, er mai ychydig iawn o ddosbarthiadau yn unig sy'n cael eu haddysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn cyrsiau gofal plant, mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn mynychu lleoliadau gwaith buddiol mewn ysgolion a meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg. Mae'r coleg yn buddsoddi mewn datblygu medrau dwyieithog ei staff, gan gynnwys ystod fuddiol o sesiynau hyfforddi a chyrsiau Cymraeg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y coleg systemau olrhain a monitro cadarn, gan gynnwys dangosfwrdd i arddangos a monitro amrywiaeth o wybodaeth reoli berthnasol. Wrth baratoi i ddysgwyr ddechrau yn y coleg o'r ysgol, mae staff y coleg yn ymweld â'r rhan fwyaf o'r ysgolion partner i nodi anghenion dysgwyr cyn iddynt ddechrau cyrsiau, gan alluogi paratoi unrhyw gymorth arbenigol sydd ei angen. Mae timau cymorth dysgu a lles y coleg yn darparu ystod fuddiol o gymorth i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.

Mae gan y coleg berthnasoedd effeithiol â Gyrfa Cymru, sy'n cymryd rhan mewn ffeiriau gyrfaoedd a digwyddiadau yn yr ysgol i wella ymwybyddiaeth dysgwyr o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt yn 16 oed.

Mae'r coleg wedi nodi cynnydd yn nifer y dysgwyr ag anghenion iechyd meddwl, ac mae nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar wasanaethau cwnsela wedi mwy na dyblu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Mae wedi ailfodelu ei ddarpariaeth cwnsela i gynnwys trefniadau i ddysgwyr fanteisio ar wasanaethau a ddarperir gan asiantaethau sy'n cefnogi. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu dysgwyr i fanteisio ar y gwasanaethau i lwyddo yn y coleg ar gyfraddau sy'n debyg yn fras i ddysgwyr eraill.

Mae'r coleg yn darparu toiledau niwtral o ran rhywedd ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, nid oes cyfleusterau newid priodol eto ar gyfer dysgwyr sy'n newid eu rhyw.

Ceir rhaglen sefydledig, yn gysylltiedig â rhwydwaith Seren, ar gyfer dysgwyr Safon Uwch mwy abl, a rhaglen a ddatblygwyd yn fwy diweddar ar gyfer dysgwyr galwedigaethol. Mae'r coleg wedi datblygu rhaglenni buddiol i gynorthwyo dysgwyr o'r lluoedd arfog a chyn-filwyr.

Mae'r coleg yn annog dysgwyr i gymryd rhan mewn cystadlaethau ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol, gweithgareddau menter a gweithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, caiff dysgwyr cerbydau modur brofiad gwaith gwerthfawr mewn ffatri geir yn Yr Almaen. Mae dysgwyr amaethyddol yn ymweld â ffermydd lleol a sioeau amaethyddol, gan wella eu hymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi ar rai o safleoedd llai'r coleg yn gyfyngedig.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn sesiynau tiwtorial defnyddiol lle maent yn ehangu eu hymwybyddiaeth o radicaleiddio, amrywiaeth a diwylliant Cymru. Yn y sesiynau hyn, mae tiwtoriaid personol yn cytuno ar, ac yn adolygu, targedau dysgu gyda dysgwyr. Mae tiwtoriaid yn rhoi cymorth buddiol i ddysgwyr ar gynllunio dilyniant. Caiff llawer o ddysgwyr sy'n mynd ymlaen i addysg uwch eu hysbysu'n dda am eu dewisiadau, ac fe gânt gymorth da yn y broses ymgeisio. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth dysgwyr o'u llwybrau dilyniant i brentisiaethau, yn enwedig ar y safle yn Y Drenewydd, yn gyfyngedig.

Mae staff yn monitro newydd-ddyfodiaid i'r coleg ar ddechrau pob diwrnod i sicrhau eu bod yn gwisgo laniardiau adnabod, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg. Mae ffordd gyhoeddus brysur yn rhedeg trwy safle Castell-nedd, sy'n achosi risg bosibl i ddiogelwch y dysgwyr. Mae'r coleg wedi cynnwys dysgwyr mewn grwpiau ffocws gyda'r awdurdod lleol i gynllunio gwaith parhaus i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch ar y ffordd yn y lleoliad hwn.

Mae gan y coleg gysylltiadau da â'r heddlu a gwasanaethau cymorth. Er enghraifft, mae swyddog cymorth cymunedol yr heddlu lleol yn mynychu'r safle yn Y Drenewydd yn rheolaidd, gan gynorthwyo athrawon yn dda trwy gymryd rhan mewn sesiynau a addysgir sy'n ymwneud â materion fel arfau tanio, troseddau â chyllyll a llinellau cyffuriau.

Mae rhaglen ymsefydlu a thiwtorial y coleg yn effeithiol wrth godi ymwybyddiaeth dysgwyr am ddiogelu, radicaleiddio a therfysgaeth mewn ffordd briodol. Mae bron

pob un o'r dysgwyr yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon ynghylch diogelu. Mae llawer o ddysgwyr yn deall risgiau radicaleiddio a therfysgaeth, ac yn gwybod am y strategaeth Rhedeg, Cuddio, Dweud (Run-Hide-Tell).

Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu dysgwyr, gan gynnwys ei ddyletswydd i amddiffyn pobl ifanc rhag radicaleiddio ac eithafiaeth, yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Caiff y prif swyddog gweithredol ei gefnogi'n dda gan uwch dîm arweinyddiaeth sefydledig a chydlynol, sy'n gweithio'n agos â bwrdd corfforaeth Grŵp NPTC. Mae cynllun strategol a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn rhoi cyfeiriad clir ac uchelgeisiol i waith y coleg. Mae'r cynllun yn amlygu ffocws cynyddol y coleg ar addysgu arloesol, ac ar gyfrifoldeb corfforaethol a chymunedol, ynghyd â'i nodau sefydledig, sef llwyddiant, cymorth a chyflogadwyedd i ddysgwyr. Mae dysgwyr wedi cyfleu'r strategaeth hon yn llwyddiannus i randdeiliaid y coleg ar draws y gwahanol ardaloedd cymdeithasol, economaidd a daearyddol y mae'n gweithredu ynddynt.

Mae gan y coleg synnwyr brwd o gyfrifoldeb tuag at y cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu. Mae arweinwyr yn gweithio'n fedrus i nodi a manteisio ar gyfleoedd i integreiddio gwaith y coleg â gweithgareddau cymunedol, a chefnogi cyfleusterau lleol. Er enghraifft, yn ddiweddar, cymerodd y coleg gyfrifoldeb am bwll nofio cymunedol, gan alluogi'r cyfleuster hwn i aros ar agor, er mwyn cefnogi iechyd a lles pobl yn yr ardal.

Mae tîm datblygu busnes y coleg yn gweithio'n dda i ymgysylltu â chyflogwyr ar draws amrediad daearyddol y coleg, i helpu ffurfio darpariaeth y coleg i ddiwallu'r angen lleol. Mae fforymau cyflogwyr targedig y coleg yn dod â rhanddeiliaid perthnasol at ei gilydd i fynd i'r afael ag anghenion datblygiad economaidd a chymdeithasol. Er enghraifft, fe wnaeth y fforymau diweddar ar gyfer y sector gofal alluogi cyflogwyr i ddysgu am gyfleoedd datblygu a chyllid, anghenion hyfforddi a gofynion rheoleiddio, yn ogystal â rhannu arfer dda.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn gwerthuso perfformiad y coleg yn briodol, ac yn nodi llawer o'r meysydd i'w datblygu yn briodol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae prosesau hunanwerthuso arweinwyr yn arwain at ddarlun rhy gadarnhaol o ychydig o agweddau ar berfformiad y coleg. Mae'r rhain yn cynnwys cyrhaeddiad graddau dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol lefel 3 a phresenoldeb mewn gwersi. O ganlyniad, nid yw staff ar draws y coleg yn gwbl ymwybodol o raddau'r gwelliant sydd ei angen, ac mae effeithiolrwydd gwaith y coleg i wella'r agweddau hyn yn anghyson.

Mae cynlluniau gwella a chynlluniau gweithredol uwch arweinwyr yn drylwyr ac yn mynd i'r afael â llawer o anghenion datblygu'r coleg yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu a thargedau priodol, y mae arweinwyr yn eu monitro'n addas.

Mae arweinwyr yn datblygu gallu athrawon i werthuso eu harfer eu hunain trwy fodel hunanwerthuso defnyddiol. Mae hyn yn darparu strwythur ac arweiniad clir i alluogi staff i fyfyrio ar, a gwerthuso, effeithiolrwydd eu gwaith yn unol â'r safonau addysgu a dysgu. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar y modd y mae athrawon yn gwella eu harfer eu hunain.

Mae'r coleg yn cefnogi dysgu proffesiynol tiwtoriaid ac arweinwyr ar bob lefel yn dda, gan gynnwys rhaglen i ddarpar arweinwyr. Mae mentoriaid datblygu addysgu a dysgu yn cefnogi athrawon i ddatblygu eu medrau a gwella eu harfer yn dda. Mae athrawon galwedigaethol yn elwa ar ddosbarthiadau meistr a arweinir gan arbenigwyr diwydiant ac ymweliadau â chyfleusterau diwydiannol.

Mae arweinwyr yn nodi arfer dda ac yn helpu staff i ddysgu ac elwa oddi wrthi. Er enghraifft, mae athrawon chwaraeon o wahanol safleoedd yn cefnogi ei gilydd yn rheolaidd i ddatblygu eu medrau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn darparu cyfleoedd cyson i athrawon ar safleoedd mwy anghysbell arsylwi a chydweithio â cholegau ar draws y grŵp. Yn ddiweddar, mae'r grŵp wedi dechrau gweithio gyda cholegau cyfagos i ddatblygu hyb o adnoddau ar y cyd i gryfhau'r addysgu, y dysgu a'r asesu ymhellach ar draws y rhanbarth.

Mae prosesau rheoli ariannol a rheoli adnoddau'r coleg yn cysylltu'n dda â'i gynllun strategol a'i flaenoriaethau gwella ar gyfer y tymor byr. Mae arweinwyr yn adolygu cost effeithiolrwydd gweithgareddau'r coleg yn fuddiol ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae arweinwyr yn cefnogi darpariaeth a chyfleusterau ar safleoedd llai'r grŵp er mwyn cynnal profiad y dysgwr ac ehangder y ddarpariaeth sydd ar gael.

Mae'r coleg yn ymateb yn briodol i anghenion adnewyddu ac ailwampio ar draws ei ystâd amrywiol. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi buddsoddi mewn gweithdy cerbydau modur newydd ar y safle ym Mhontardawe sy'n galluogi dysgwyr i ymarfer medrau fel atgyweirio a pheintio corff cerbydau, gan ddefnyddio cyfleusterau o safon diwydiant.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a holiadur i gyflogwyr, ac ystyried barn athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr a'r corff llywodraethol lle y bo'n briodol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r pennaeth/prif weithredwr, y llywodraethwyr (lle y bo'n briodol), uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr unigol i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys sesiynau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, lle y bo'n briodol
- yn arsylwi a siarad â dysgwyr yn ystod amser cinio ac amser egwyl
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle y bo'n briodol), gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/05/2020